Cyflymu Busnesau Cymru

# Canllaw Busnes

# Y Sector Creadigol

Technoleg yw'r offeryn sy'n ysgogi arloesi, hyblygrwydd, cysylltiadau rhyngweithiol â chwsmeriaid a modelau busnes newydd yn y sector hwn. Ond er mwyn manteisio i'r eithaf arni, rhaid i gwmnïau gael mynediad at wasanaethau band eang cyflym sy'n cefnogi defnydd dwys o'r we

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy • www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales

Busnes Cymru Business Wales
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Y Sector Creadigol

Mae sector creadigol y DU yn gymysgedd dynamig o ddiwydiannau sy'n cynnwys cerddoriaeth, ffilm, darlledu, cynhyrchu gemau fideo a gemau cyfrifiadurol, dylunio a chyhoeddi, a llu o wasanaethau ategol megis hysbysebu, marchnata, datblygu meddalwedd a dylunio gwefannau.

Mae’r sector, wrth gwrs, wedi’i ddylanwadu’n fawr gan ddatblygiadau mewn technoleg cyfathrebu a dechreuad Band Eang Cyflym Iawn, yn arbennig, y mae wedi newid pa nwyddau a gwasanaethau sy’n cael eu datblygu yn sylweddol yn ogystal â’r modd maen nhw’n cael eu defnyddio / darparu.

Mae’r lled band enfawr sydd bellach ar gael wedi, er enghraifft, gwneud cydweithio mewn amser go iawn yn y diwydiant cerddoriaeth yn bosibl tra bod modd i gwmnïau cynhyrchu ffilmiau gynyddu trosiant eu prosiectau drwy rannu ffeiliau mawr â chwsmeriaid ac ymateb i’r newidiadau sydd eu hangen yn gyflymach.

Yn y cyfamser, mae modd i fusnesau a defnyddwyr y cartref ddewis dreialu a defnyddio amrywiaeth eang o feddalwedd ar-lein sydd, a fyddai hyd yn oed ychydig o flynyddoedd yn ôl, wedi bod yn amhosibl i’w ddarparu dros gysylltiad rhyngrwyd. Yr enghreifftiau pwysicaf i fusnesau yw cyfresi SaaS (Meddalwedd fel Gwasanaeth) sy’n offrymu CRM, nwyddau cynhyrchiant cyfrifo a swyddfa, tra bod gan ddefnyddwyr y cartref yn awr fynediad at blatfformau hapchwarae ar-lein soffistigedig a cherddoriaeth / fideo sydd ar alw.

Amcangyfrifir bod y sector bellach yn cynhyrchu 6-8% o allbwn economaidd y DU gan gyflogi tua dwy filiwn o bobl. Bydd y diwydiant hysbysebu yn unig yn werth £17.7 biliwn erbyn 2016 (ffynhonnell: PwC); mae trosiant y diwydiant cyhoeddi yn £19 biliwn y flwyddyn; ac mae mwy na 30% o feddalwedd gemau fideo a werthir yn Ewrop yn cael eu datblygu gan stiwdios Prydeinig.

Technoleg yw'r offeryn sy'n ysgogi arloesi, hyblygrwydd, cysylltiadau rhyngweithiol â chwsmeriaid a modelau busnes newydd yn y sector hwn. Ond er mwyn manteisio i’r eithaf arni, rhaid i gwmnïau gael mynediad at wasanaethau band eang cyflym sy'n cefnogi defnydd dwys o'r we, ac yn eu galluogi i ddatblygu eu gwasanaethau a'u cynhyrchion eu hunain, gan adlewyrchu'r diweddaraf a'r gorau mewn technoleg fodern: rhannu cynnwys a llwyfannau gwylio cymdeithasol, gwasanaethau rhannu cerddoriaeth ac offer curadu cynnwys.

O ystyried hyn, mae gan fusnesau bach a chanolig yn y sector creadigol ran allweddol i'w chwarae o ran ysgogi'r galw am ddatblygu seilwaith digidol o'r radd flaenaf a dylanwadu arno, a bydd hyn yn eu galluogi i barhau i ddatblygu'r cynnwys gorau posibl mewn marchnad fyd-eang gystadleuol iawn.

> Mae cysylltedd cyflym iawn yn rhoi'r hyder i fusnesau adeiladu canolfannau creadigol rhithwir mewn dinasoedd neu ardaloedd gwledig, beth bynnag yw lleoliad ffisegol eu pobl.

# Pum Technoleg Hanfodol ar gyfer Busnesau Creadigol

## Band Eang Cyflym Iawn

Yn amlwg, mae hyn yn hanfodol i unrhyw fusnes sy'n dibynnu ar rannu cynnwys â chwsmeriaid a phartneriaid cydweithredol. Cynnwys wedi'i ddigideiddio yw'r norm – ac mae cynnydd yn swm y data yn rhan annatod o hyn, sy'n galw am fwy o bŵer cyfrifiaduro a mwy o led band i ddarlledu. Mae cwsmeriaid yn disgwyl diffiniad sain a fideo uwch ar gyfer ffrydio cyfryngau, gan gynyddu'r galw am Fand Eang Cyflym iawn.

## Cyfathrebu symudol

Mae'r sector creadigol wedi bod yn un o brif arloeswyr modelau busnesau rhithwir, lle mae timau'n cydweithio ac yn rhannu cynnwys, beth bynnag eu lleoliad. Mae angen i weithwyr gael gafael ar gymwysiadau ac offer lle bynnag y bônt. Daw caffis, cynteddau mewn gwestai, trenau-hyd yn oed Trenau Tanddaearol Llundain - yn swyddfeydd rhithwir lle y gellir gwneud penderfyniadau, rhannu cynnwys a'i gyhoeddi, a chymeradwyo dyluniadau, diolch i dwf gwasanaethau diwifr cyflym a mannau lle ceir Wi-Fi. Mae angen systemau Cyfathrebu Unedig (UC) ar fusnesau creadigol, sy'n integreiddio cyfathrebu sefydlog a symudol a rheoli cysylltedd yn ddiogel.

## Cyfryngau cymdeithasol

Fel eu cwsmeriaid, mae llawer o fusnesau bach a chanolig yn y sector creadigol yn troi at offer busnes cymdeithasol i gydweithio, rhannu a chyhoeddi cynnwys, a meithrin rhwydweithiau â phartneriaid rhithwir. Mae'r dulliau hyn yn llwyfannau gwych ar gyfer curadu cynnwys, ac mae dewisiadau newydd yn cael eu datblygu'n gyson - yn aml gan unigolion arbenigol yn y sector creadigol.

Mae llwyfannau arloesol fel Path (rhwydwaith cymdeithasol symudol) a Pinterest (gwasanaeth nod i tudalen nau cyfryngau cymdeithasol, sy'n boblogaidd iawn ymhlith busnesau creadigol) wedi ymuno â'r criw arferol – Facebook, Twitter a Google+.

Er mwyn gwneud y defnydd gorau a mwyaf hyblyg o'r dulliau hyn mae angen lled band uchel diogel, cyflym a dibynadwy.

## Gwasanaethau cwmwl

Mae'r cwmwl yn galluogi busnesau i brynu cymwysiadau a systemau fel gwasanaethau. Yn y gorffennol, roedd yn rhaid i'r rhain gael eu gosod ar gyfrifiaduron unigol fel arfer, ac roedd angen o leiaf rhywfaint o reolaeth ragweithiol i gadw'r trwyddedau'n gyfredol ac yn gyson – sy'n dreth o ran costau ac adnoddau. Mae'r cwmwl yn darparu offer ar gyfer arloesi heb fod angen seilwaith drud.

Mae apiau yn y cwmwl – o ddulliau cyfathrebu personol a chynadledda i becynnau cyfrifydd u a busnes – yn galluogi gweithwyr i weld eu gwybodaeth o unrhyw le, ar yr amod bod ganddyn nhw gysylltiad rhyngrwyd. Maen nhw'n cael eu diweddaru'n awtomatig gan ddarparwyr meddalwedd. A bydd pawb yn cael mynediad i ddatblygiadau cyn gynted ag y byddan nhw ar gael.

## Offer delweddu, personoli a datblygu ar y cyd

Mae llawer o fusnesau creadigol yn dibynnu ar ddulliau modelu i greu eu dyluniadau mewn amgylchedd rhithwir. Mae'r genhedlaeth newydd o ddulliau modelu 3-D yn ei gwneud yn haws dosbarthu a gweld dyluniadau – cyn belled â bod digon o led band ar gael.

Ar gyfer busnesau sy'n canolbwyntio ar greu a churadu cynnwys, mae dulliau dylunio a chynhyrchu integredig yn hanfodol i feithrin y profiad sydd wedi'i bersonoli fwyfwy a ddisg wylir gan eu cwsmeriaid. Fel arfer, mae gwe-dudalennau yn hierarchaethau o wybodaeth a baratowyd o gronfeydd data mawr o gynnwys strwythuredig y gellir manteisio arnyn nhw yn unol â dewisiadau'r cwsmer unigol.

Mae cyflymder yn hanfodol i unrhyw fusnes sydd am gyflwyno gwasanaeth neu adnodd ar-lein newydd i'r rhwydwaith yn gyflymach. Mae offer cydweithredol yn seiliedig ar feddalwedd Cod Agored yn helpu i gyflymu datblygu cymwysiadau, gan gynnwys gemau fideo, mewn marchnad gystadleuol.

### Pum cwestiwn i'ch cyflenwr band eang cyflym iawn

- Pa mor gyflym yw cyflym?
- Pa mor hir y bydd yn ei gymryd i drwsio nam?
- Alla i siarad ag unigolyn go iawn mewn amser real?
- Fydda i'n gweithio gyda'r un unigolyn wrth i'r gwaith trwsio fynd rhagddo?
- Oes gennych chi adran Cwestiynau Cyffredin ar eich gwefan?

## Heriau Recriwtio

Mae busnesau bach a chanolig creadigol yn wynebu heriau penodol o ran recriwtio. Rydych yn chwilio am bobl sy'n fedrus gyda thechnoleg sy'n berthnasol i'ch busnes. Ond rydych hefyd am ddod o hyd i bobl sy'n deall y busnes ei hun, sy'n gallu cydweithredu ac sy'n ddigon hyblyg i symud yn gyflym i fodloni gofynion cynyddol soffistigedig cwsmeriaid a phartneriaid busnes.

Mae'r busnesau bach a chanolig mwyaf arloesol yn trin TG fel rhan integredig o'u strategaeth ac maen nhw am gyflogi pobl sy'n gallu tyfu a datblygu gyda'u busnes – gan weld y darlun cyfan, nid dim ond y rhaglenni.

Caiff hyder cynyddol busnesau bach a chanolig mwy creadigol ac amlbwrpas ei adlewyrchu yn y modd y maen nhw'n mabwysiadu gweledigaeth hirdymor o'u busnes ac yn gwneud penderfyniad strategol i fuddsoddi yn y sgiliau a fydd yn eu cynorthwyo i gyrraedd eu nodau mewn ffordd symlach – datblygu apiau symudol, cyfrifiadura cwmwl, ac e-fasnach.

Profiad y cwsmer yw'r frwydr fawr i lawer o'r busnesau bach a chanolig hyn. Apiau a rhyngwynebau yw eich arfau yn y gystadleuaeth am deyrngarwch a busnes. Os gallwch recriwtio staff TG sy'n adlewyrchu'r realiti hwnnw o ran eu sgiliau a'u gwybodaeth, byddwch mewn sefyllfa i sicrhau eich bod ar flaen y gad.

Gall recriwtio'r unigolyn cywir fod yn broses hirfaith. Ystyriwch gyflogi contractwr ar gyfer prosiectau penodol. Os byddwch yn creu amgylchedd dynamig lle y gall ddatblygu ei rôl, efallai y bydd yn aros gyda chi.

# Pa Fanteision Busnes y Gallaf eu Disgwyl?

## Hyblygrwydd

Mae Band Eang cyflym iawn yn gwarantu cyflymder ichi, hyd yn oed ar yr adegau prysuraf o'r dydd. Gallwch redeg eich busnes unrhyw bryd, unrhyw le. Gall gweithwyr fod yn hyderus y byddan nhw’n gallu cael mynediad at apiau ac offer lle bynnag y bônt. A bydd cwsmeriaid yn gallu dibynnu ar wasanaeth cyson.

## Arbedion costau a rhoi seilwaith ar gontract allanol

Mae Band Eang Cyflym Iawn yn rhoi mynediad ichi i lu o apiau ac offer datblygu ar gwmwl heb orfod gweithredu a chynnal a chadw systemau drud yn fewnol.

Ar yr amod bod gennych gysylltiad ether - rwyd, bydd Band Eang Cyflym Iawn yn eich galluogi i greu seilwaith rhithwir heb unrhyw rai o'r gorbenion traddodiadol – a gall eich gweithwyr ganolbwyntio ar y busnes craidd: creu cynhyrchion, gwasanaethau a chynnwys.

Os bydd gan eich gweithwyr fynediad symudol at yr apiau allweddol, byddwch hefyd yn arbed costau teithio ac yn lleihau eich defnyddio ynni, gan sicrhau biliau is.

## Cydweithio mewnol ac allanol

Mae technoleg fel VOIP a fideo-gynadledda yn galluogi eich gweithwyr i gydweithio â'i gilydd a chyda phartneriaid datblygu mewn busnesau eraill.

Mae'r gallu i lwytho cynnwys i fyny sy'n defnyddio llawer o led band gan gynnwys graffeg a fideos cymhleth, a hynny dipyn yn gyflymach na'r amser a arferai ei gymryd, yn golygu y gallwch ei rannu a'i gyhoeddi'n gyflymach o lawer –gan roi mantais gystadleuol ichi.

## Personoli cysylltiadau â chwsmeriaid

Gallwch hefyd feithrin cysylltiadau mwy personol gyda'ch cwsmeriaid – o gynnwys wedi'i deilwra ar y we i opsiynau cyfathrebu amser real mwy hyblyg - gan helpu i greu mwy o deyrngarwch a busnes cyson.

## Cronfa sgiliau TG a busnes cyffredinol

Os nad yw eich tîm yn canolbwyntio ar reoli seilwaith TG cymhleth, gellir ei ryddhau i ddatblygu cyfuniad o sgiliau TG a busnes sy'n adlewyrchu'r sector creadigol yn yr 21ain ganrif.

## Gweithio o bell

Gyda llawer o fusnesau bach a chanolig yn gweithredu modelau busnes rhithwir, mae technolegau cydweithredol heddiw wedi'u cyfuno â chysylltedd symudol yn golygu bod pellter a lleoliad gweithwyr a phartneriaid unigol yn amherthnasol.

> Sicrhewch mai eich busnes yw'r sbardun i fabwysiadu unrhyw dechnoleg newydd – nid y dechnoleg ei hun

# Sut mae dechrau arni?

## Aseswch eich adnoddau

Dylai unrhyw fusnes achub ar y cyfle a gyflwynir gan Fand Eang Cyflym Iawn i ailasesu ei adnoddau a sicrhau ei fod yn manteisio i'r eithaf arnyn nhw er mwyn cael y budd gorau o'r cysylltedd cyflymach a fydd ar gael. Dechreuwch drwy edrych ar gost gyfan eich bil telathrebu – a gofynnwch i'ch darpar ddarparwr gwasanaeth sut y gall Band Eang Cyflym Iawn arbed arian i chi drwy ddarparu pecyn Cyfathrebu Unedig cyflawn.

Yna ystyriwch eich seilwaith presennol. Er enghraifft, bydd angen ichi wirio ansawdd eich cysylltiad ether-rwyd i sicrhau y bydd y manteision yn cael eu gwireddu o fewn eich rhwydwaith eich hun. Dylai eich darparwr gwasanaeth allu eich helpu gyda hyn.

## Technoleg ar gyfer arloesi, cydweithio, datblygu ac ymgysylltu

Bydd Band Eang Cyflym Iawn yn rhoi mynediad ichi i amrywiaeth o gymwysiadau a gwasanaethau yn y cwmwl, y bydd llawer ohonyn nhw’n ategu eich meddalwedd bresennol neu hyd yn oed yn ei disodli. Bydd manteision cyfrifiadura cwmwl – costau is am drwyddedau, trefniadau rheoli symlach, y gallu i'w ddefnyddio bob awr o'r dydd, mynediad o bell – yn dibynnu ar allu eich darparwr gwasanaeth i warantu diogelwch, a ddylai fod yn brif ystyriaeth.

## Diogelwch a symudedd

Paratowch eich tîm i fanteisio i'r eithaf ar amgylchedd TG y gall ei gludo o amgylch yn effeithiol ar eu gliniaduron, eu ffonau clyfar a'u dyfeisiau llechen. Ystyriwch weithredu strategaeth Dewch â'ch Dyfais eich Hun (BYOD) lle mae eich gweithwyr yn cael eu hannog i fanteisio ar yr offer a'r systemau busnes drwy'r rhyngwynebau y maen nhw fwyaf cyfforddus â nhw, lle bynnag y bônt. Dylai hyn gael ei integreiddio i'ch polisi diogelwch – a'i reoli'n briodol.

## Dewiswch y darparwr cywir

Mae cysylltedd cyflym iawn yn hanfodol i allu'r sector creadigol i arloesi a datblygu cynnwys a chynhyrchion newydd. Felly mae'n hanfodol dod o hyd i ddarparwr gwasanaeth sy'n deall dynameg eich diwydiant ac sy'n gallu darparu'r math o l efelau gwasanaeth, argaeledd a diogelwch sydd eu hangen arnoch i gynnal eich busnes, galluogi cydweithio a diwallu disgwyliadau cwsmeriaid.

Gofynnwch iddo a yw’n darparu cysylltiad Ffibr i'r Cabinet ac os felly sicrhewch fod eich eiddo o fewn pellter rhesymol i gael budd o'r cyflymder llwytho i lawr a llwytho i fyny y dylai hyn ei sicrhau. Gofynnwch pa gyflymder union y gall y darparwr ei gynnig - a sicrhewch fod hyn yn cyd-fynd â'ch anghenion. Sicrhewch fod eich darparwr gwasanaeth gallu darparu lefelau gwasanaeth sy’n cyd-fynd â’ch disgwyliadau o ran twf.

Gofynnwch pa wasanaethau wedi'u lletya a gwasanaethau IP eraill mae’n eu darparu, a allai gymryd y pwysau oddi ar eich seilwaith a'ch rhyddhau i ganolbwyntio ar eich busnes craidd.

## Awgrymiadau Defnyddiol

### Ymchwiliwch i'r farchnad band eang
Mae cyflenwyr a darparwyr gwasanaethau'n amrywio o ran eu sgiliau a'u harbenigeddau, a bydd angen un arnoch a fydd yn gweithio mewn partneriaeth â chi ac yn treulio amser yn deall anghenion penodol eich busnes.

### Cofiwch am yr astudiaethau achos
Siaradwch â pherchnogion busnes creadigol eraill a gofynnwch am eirda cyn ichi ymrwymo i ddarparwr gwasanaeth newydd.

### Diffiniwch eich Cytundeb Lefel Gwasanaeth
Peidiwch â gadael hynny i'r broliant marchnata – byddwch yn benodol ynglŷn â'ch disgwyliadau a'ch anghenion, er mwyn ichi allu bod yn siŵr y bydd unrhyw broblemau'n cael eu datrys o fewn amserlen gydnabyddedig, a bod cyn lleied o amser segur â phosibl.

### Holwch am fwndeli
Mae bwndeli gwasanaeth yn ffordd wych o leihau costau, felly holwch i weld a oes gan eich darparwr gwasanaeth wasanaethau a thechnolegau eraill sy'n cael eu lletya a allai leihau eich seilwaith.

### Ymunwch â'r ymgyrch
Mae'r sector creadigol wedi cael ei nodi fel sector a chanddo ddylanwad allweddol ar ddatblygu gwasanaethau band eang cyflym, felly sicrhewch fod eich llais yn cael ei glywed a bod eich cyflenwr yn ymwybodol o'ch anghenion cynyddol o ran lled band.

### Byddwch yn barod i newid darparwr
Peidiwch ag ymrwymo i gontract hirdymor, a byddwch yn barod i newid darparwr er mwyn cael mynediad i'r dechnoleg ddiweddaraf os bydd eich darparwr ar ei hôl hi.

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ewch i:
www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales

Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru